Adran Gwaith
a Phensiynau

# Ail Ymateb y Llywodraeth i'r Adolygiad Annibynnol o'r Asesiad Taliad Annibyniaeth Personol

Cyflwynwyd gerbron y Senedd
gan yr Ysgrifennydd Gwladol dros Waith a Phensiynau
ar Orchymyn Ei Mawrhydi
Tachwedd 2015

Cm 9159

OGL

**(h) Hawlfraint y Goron 2015**

Mae'r cyhoeddiad hwn wedi'i drwyddedu o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored f3.0 ac eithrio lle y nodir yn wahanol. I weld y drwydded hon ewch i **nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/version/3** neu ysgrifennwch at Information Policy Team, The National Archives, Kew, London TW9 4DU, neu anfonwch e-bost: **psi@nationalarchives.gsi.gov.uk**.

Lle mae deunydd trydydd parti wedi'i nodi, rhaid cael caniatad y deiliad hawlfraint priodol.

Mae'r cyhoeddiad hwn ar gael yn **www.gov.uk/government/publications/personal-independence-payment-pip-assessments-second-independent-review-government-response**

Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynglŷn a'r cyhoeddiad hwn atom yn

**Strategy, Policy and Analysis Team**
**Disability Benefits**
**PIP Policy Team**
**Ground Floor**
**Caxton House**
**6-12 Tothill Street**
**London**
**SW1H 9NA**

**E-bost: pip.independentreview@dwp.gsi.gov.uk**

**Gwe ISBN 978-1-78425-656-2**

Rhif Adnabod 02111511 11/15

## Cynnwys

| | | |
|---|---|---|
| **Rhagair Gweinidogol** | | 4 |
| Pennod 1 | **Cyflwyniad** | 5 |

# Rhagair Gweinidogol

Yn dilyn ymateb cychwynnol y Llywodraeth i'r adolygiad annibynnol cyntaf y Taliad Annibyniaeth Personol (PIP) a gyhoeddwyd ym mis Chwefror eleni, rwy'n croesawu'r cyfle i ddarparu ymateb mwy manwl a chynhwysfawr i'r argymhellion a nodwyd yn ystod yr adolygiad. Rwyf yn dal yn ddiolchgar i Paul Gray am ei adroddiad.

Mae cefnogi pobl anabl i fyw bywydau gweithgar ac annibynnol bob amser wedi bod yn flaenoriaeth i mi fel AS etholaeth, ac rwyf yn falch fel Gweinidog dros Bobl Anabl bod gennyf nawr y cyfle i wneud mwy o waith yn y maes hwn wrth i gyflwyniad PIP parhau.

Mae cyflwyno budd-dal newydd o gymhlethdod a maint y PIP yn heriol. Yn gynharach eleni, penderfynon ddwyn ymlaen dechrau Cyflwyno'r PIP Llawn er mwyn ein galluogi i brofi rhai rhannau o'r system ar raddfa gyfyngedig, cyn i PIP gael ei gyflwyno'n genedlaethol ym mis Hydref. Wedi dysgu'r gwersi o PIP yn rhedeg yn fyw, rydym yn parhau i wneud gwelliannau i'r system i wella'r profiad ar gyfer hawlwyr, ac rwyf yn falch bod amseroedd aros wedi parhau i ostwng gyda cheisiadau newydd ar gyfartaledd yn awr yn aros 5 wythnos am asesiad, o'i gymharu â 10 wythnos ym mis Chwefror 2015.

Fy mlaenoriaeth yn y dyfodol yw parhau i sicrhau bod y broses o gyflwyno PIP yn cael ei gyflwyno mewn dull rheoledig a mesuredig yn unol â gallu. Byddwn yn parhau i ddysgu ac adolygu ein hymagwedd at gyflwyno PIP, gan weithio ochr yn ochr â phobl anabl a sefydliadau anabledd i sicrhau bod anghenion hawlwyr yn cael eu hadlewyrchu.

Yn ogystal rydym yn parhau i weithio'n agos gyda Llywodraeth yr Alban cyn datganoli PIP.

Mae'r Llywodraeth wedi ymrwymo mewn deddfwriaeth i adolygiad annibynnol pellach a fydd yn adrodd erbyn mis Ebrill 2017. Bydd yr Adran yn cyhoeddi'r adolygydd a chylch gorchwyl ar gyfer yr adolygiad maes o law, ac edrychaf ymlaen at ei argymhellion er mwyn sicrhau bod PIP yn parhau i fod yn fudd-dal modern a deinamig, gan gefnogi rhai sydd fwyaf agored i niwed mewn cymdeithas.

**Justin Tomlinson**
**Gweinidog dros Bobl Anabl**

# Cyflwyniad 1

Mae'r bennod hon yn nodi:

- Crynodeb byr o ymateb cychwynnol y Llywodraeth i'r adolygiad annibynnol y Taliad Annibyniaeth Personol.
- Natur ymateb yr Adran Gwaith a Phensiynau.

## Yr Adolygiad

Gan gydnabod maint yr her o weithredu Taliad Annibyniaeth Personol (PIP), ymrwymodd y Llywodraeth yn deddfwriaeth[1] i gynnal o leiaf dau adolygiad annibynnol o PIP, er mwyn dysgu o brofiad a sicrhau bod PIP yn cyflawni ei bwriad polisi gwreiddiol.

Y cyntaf o'r adolygiadau annibynnol gan Paul Gray a gyhoeddwyd ym mis Rhagfyr 2014. Roedd yn canolbwyntio ar faterion o dan dair prif thema: gwella profiad yr hawlydd, tystiolaeth bellach, ac effeithiolrwydd yr asesiad. Gwnaed cyfanswm o 14 o argymhellion, dros ystod o wahanol amserlenni.

## Ymateb cychwynnol y Llywodraeth

Oherwydd cwmpas eang rai o'r argymhellion yn yr adolygiad, penderfynodd yr Adran Gwaith a Phensiynau (yr Adran) ymateb i'r adolygiad mewn dau gam. Cyhoeddodd yr Adran ei ymateb cychwynnol i'r adolygiad ym mis Chwefror 2015. Canolbwyntiodd yr ymateb yn bennaf ar yr argymhellion tymor byr a nodi sut y byddai'r Adran yn ymateb iddynt, gan ategu'r gwaith roedd eisoes ar y gweill.

[1] Adran 89 y Ddeddf Adolygu Lles 2012.

Roedd yn cynnwys tri maes allweddol:

- Adolygu a diwygio cyfathrebiadau gyda'r hawliwr: meithrin dealltwriaeth hawlwyr o'r broses hawlio, gan gynnwys pwrpas a chynnwys asesiad swyddogaethol;
- Gwella cydberthnasau rhwng rheolwyr achos yr Adran a gweithwyr iechyd proffesiynol wrth greu proses hawlio effeithlon ac effeithiol; a
- Monitro a sicrhau defnydd cywir o feini prawf asesu er mwyn sicrhau bod penderfyniadau yn deg ac yn gyson.

## Yr ymateb hwn

Blaenoriaeth y Llywodraeth yw sicrhau bod y broses o gyflwyno PIP yn cael ei gynnal mewn modd diogel a rheoledig, yn amddiffyn profiad yr hawliwr ac yn canolbwyntio cymorth ar y rhai sydd â'r anghenion mwyaf. Wrth ddechrau ymestyn PIP i ddyfarniad hir-dymor neu amhenodol hawlwyr Lwfans Byw i'r Anabl ("cyflwyno PIP llawn") ym mis Gorffennaf eleni, mae'r Adran wedi defnyddio tystiolaeth o gyfnodau blaenorol y cyflwyno, ynghyd â gwersi a ddysgwyd o'r adolygiad cyntaf, i sicrhau ei fod yn gwella'r ffordd y mae PIP yn cael ei gyflwyno'n barhaus, gan gynnig y profiad gorau posibl i'r hawliwr. Drwy weithredu ar raddfa lai yn y lle cyntaf, mae'r Adran hefyd wedi dewis monitro'r system yn agos ac mewn cyfeintiau bach er mwyn sicrhau bod proses ailasesu effeithiol yn ei lle. Mae hyn hefyd wedi darparu'r Adan gyda chyfle i brofi rhannau allweddol o'r broses PIP, megis y ffordd yr ydym yn cyfathrebu â hawlwyr.

Mae'r Adran yn awr mewn sefyllfa i ymateb i'r argymhellion canolig a thymor hir yn ogystal â rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf o'r camau a gymerwyd yn erbyn yr argymhellion tymor byr.

ISBN 978-1-78425-656-2

(h) Hawlfraint y Goron 2015

Cyhoeddwyd gan yr Adran
Gwaith a Phensiynau

Tachwedd 2015

**www.dwp.gov.uk/cymraeg**